



Adroddiad Cyfarfod

11:01:23

Bob Morris

Bu i'r gangen gyfarfod ar ddechrau'r flwyddyn dros Zoom. Braf oedd gweld Glenys yn ymuno efo ni o'r de, ac fe anfonwyd ein llongyfarchiadau at Mabel sydd wedi dod yn nain eto i Mabli, chwaer fach i Macsen; ac hefyd ein dymuniadau gorau at ei gŵr Tomos Alun sydd yn yr Ysbyty.

Ein gŵr gwadd oedd Bob Morris, ac fe'n tywysodd ni drwy hanes Syr Billy Butlin yn sefydlu y gweryll gwyliau ym Mhenychain ger Pwllheli. Yn un o bedair cenhedlaeth a fu'n gweithio yn y gweryll, bu yno am saith haf yn olynol yn y 60au. Cawsom hanes a sgwrs ddifyr tu hwnt, ynghyd â lluniau trawiadol sut y datblygwyd gogledd Cymru yn gyrchfan gwyliau i bobl gyffredin o Ogledd Lloegr a thu hwnt, ac agor "Butlins Pwllheli"

Cyn agor gwerylloedd gwyliau ar hyd arfordir Gogledd Cymru, yr oedd y cyfle i fynd ar wyliau yn gyfyngedig iawn, ac fe ddatblygodd Billy Butlin y syniad y gallai unigolion gael gwyliau drwy dalu un pris rhesymol am bob dim, lle i aros, bwyd, adloniant a'r gweithgareddau amrywiol. Ei arwyddair oedd "Popeth er mwyn eich llawenydd", ac yr oedd yn awyddus i bobl gael gwyliau go iawn oddi wrth bryderon y byd, a hynny mewn criwiau o gydweithwyr a ffrindiau.

Yn ystod yr ail ryfel byd, hyfforddi swyddogion ar gyfer y llynges oedden nhw yn ei wneud ym Mhenychain, ac er fod yna gryn wrthwynebiad i'w droi yn wersyll gwyliau fe agorwyd i 5,000 o wersyllwyr yn 1947. Mae'n siwr fod Butlins yn ran o atgofion nifer ohonom, rhai wedi aros yno a lleill wedi bod yno ar dripiâu ysgol Sul. Yn ei anterth yr oedd yna rhwng 12,000 a 14,000 yn aros yno. Ond tuag at yr 80au roedd pobl yn dechrau bod eisiau pethau gwahanol, ac ddim mor awyddus i fod yn mynd ar wyliau mewn criwiau mawr. Er fod y gweryll wedi newid efo amser a cau fu hanes Butlins yn 1998. Ond mae'n dal modd mynd ar wyliau i Benychain, gan fod Hafan y Môr wedi agor yn dal yn le i bobl ddianc oddi wrth y byd a'i bryderon rhwng Llyn ac Eifionnydd.

Diolchodd Mair Price ein llywydd am yr orig ddifyr, ac fe fyddwn yn ôl yn cyfarfod yn y Neuadd ym Mis Chwefror.